PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

**PANEL DYFARNU CYMRU**
**ADJUDICATION PANEL FOR WALES**

**RHYBUDD O DDYFARNIAD**

**CYFEIRNOD Y TRIBIWNLYS:** APW/001/2025-026/CT

**ATEBYDD:** Y Cyn-Gynghorydd Iwan Huws

**AWDURDOD PERTHNASOL:** Cyngor Sir Gwynedd

1. Cyfarfu Tribiwnlys Achos gynullwyd gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru i ystyried y cyfeiriad wnaed iddo parthed yr Atebydd uchod.

2. Derbyniodd Panel Dyfarnu Cymru gyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru parthed honiad wnaed ynglyn a'r cyn-Gynghorydd Huws. Yr honiad oedd iddo dorri côd Ymddygiad Cyngor Sir Gwynedd trwy dderbyn Rhybudd Amodol am drosedd o "Dwyll drwy gamddefnyddio swydd" drwy geisio twyllo ei gyflogwr, wrth gamddefnyddio arian. Cafodd ei ystyried yn rhesymol fod rhybudd amodol a chamymddygiad yr Aelod wedi dod â'i swydd fel aelod â'i Gyngor Sir i anfri.

3. Dyfarnodd y Tribiwnlys Achos trwy ystyried y dystiolaeth ddogfennol ar yr 17 Rhagfyr 2025, mewn gwrandawiad gynhaliwyd ar blatfform cynhadledd fideo. Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfryd fod y cyn-Gynghorydd wedi torri'r côd ymddygiad, fel y gosodir ym mharagraff 2 uchod.

4. Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylai'r cyn-Gynghorydd gael ei anghymhwyso rhag dal swydd gyhoeddus mewn unrhyw awdurdod perthnasol, fel y'i diffinir yn adran 49(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad y dyfarniad.

5. Hysbysir yr Awdurdod a'i Bwyllgor Safonau o hynny.

6. Mae gan yr Atebydd hawl i geisio caniatad yr Uchel Lys i apelio'n erbyn y dyfarniad uchod.

7. Ni wnaeth y Tribiwnlys Achos unrhyw argymhellion i'r Awdurdod.

Arwyddwyd……… Meleri Tudur …………… Dyddiad: 17 Rhagfyr 2024

Barnwr Meleri Tudur
Llywydd yr Panel Dyfarnu Cymru ac Cadeirydd y Tribiwnlys Achos

Dr Glenda Jones
Aelod o’r panel

Mrs Sian McRobie
Aelod o’r panel